



Cyfarfod

**BWRDD PENSIWN**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 3YDD MAWRTH, 2020**

Lleoliad

**Siambwr Hywel Dda - Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 24 Chwefror 2020)

## **BWRDD PENSIWN**

### **AELODAETH**

#### **CYNYCHLIOLWYR CYFLOGWR**

Huw Trainor (Heddlu Gogledd Cymru)

Cyng Aled Lloyd Evans (Cyngor Gwynedd)

Sioned Parry (Cyngor Bwrdeistrefol Conwy)

#### **CYNYCHLIOLWYR AELODAU**

Hywel Eifion Jones (wedi ymddeol – Cyngor Mon gynt)

Osian Richards (Cyngor Gwynedd)

Sharon Warnes (wedi ymddeol - Cyngor Gwynedd gynt)

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 10fed o Ragfyr 2019 fel rhai cywir

## 5. COFNODION PWYLLGOR PENSIYNAU

9 - 11

Cyflwyno er gwybodaeth, cofnodion y Pwyllgor Pensiynau a gynhaliwyd 16 o Ionawr 2020 ac ystyried unrhyw faterion yn codi

## 6. DIWEDDARIAD CYFFREDINOL AM WEINYDDIAETH PENSIYNAU

12 - 16

I ystyried yr adroddiad

## 7. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

17 - 19

I ystyried yr adroddiad

- 8. CYFATHREBU GYDAG AELODAU NEWYDD AC IFANC 20 - 62**

I ystyried yr adroddiad

- 9. CYNHADLEDD LAPFF, 4-6 RHAGFYR 2019- BOURNEMOUTH 63 - 67**

I ystyried yr adroddiad

- 10. CYNHADLEDD LLYWODRAETHU'R CPLLL, 23-24 IONAWR 2020 - EFROG 68 - 73**

I ystyried yr adroddiad

- 11. PECYN HYFFORDDIANT Y RHEOLEIDDIWR PENSIYNAU 74 - 77**

I ystyried yr adroddiad



---

## BWRDD PENSIWN, 10.12.19

---

**Yn bresennol:** H. Eifion Jones (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun), Osian Richards (Cynrychiolydd Aelodau) - Cadeirydd, Huw Trainor (Cynrychiolydd Cyflogwr) a Sharon Warnes (Cynrychiolydd Aelodau).

**Swyddogion:-** Delyth Jones Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cynghorydd Aled Evans (Cyngor Gwynedd) Cynghorydd John Pughe Roberts (Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau) a Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid)

Anfonwyd dymuniadau gorau am wellhad buan i'r Pennaeth Cyllid

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

### 3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

### 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod hwn a gynhaliwyd ar 24 Medi 2019 fel rhai cywir.

Mewn ymateb i gais am ddiweddariad ar y broses o recriwtio a phenodi cynrychiolydd cyflogwr newydd i'r Bwrdd Pensiwn amlygwyd, yn dilyn llythyru pob cyflogwr am geisiadau, bod ceisiadau wedi eu cyflwyno. Ategwyd mai y 15fed o Ionawr 2020 yw'r dyddiad cau gyda bwriad cynnal cyfweiliadau ar y 23ain o Ionawr 2020

### 5. COFNODION PWYLLGOR PENSIYNAU A CHYFARFOD BLYNYDDOL Y GRONFA BENSIWN

Derbyniwyd, er gwybodaeth, gofnodion y Pwyllgor Pensiynau a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2019 ynghyd a chofnodion cyfarfod blynyddol y Gronfa Bensiwn a gynhaliwyd 24 Hydref 2019.

Nid oedd gan yr aelodau unrhyw sylwadau pellach i'w codi o'r cofnodion.

### 6. CAU ALLAN Y WASG AR CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** cau allan y wasg ar cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Er bod budd

cyhoeddus mewn cael dealltwriaeth o weithredu'r gronfa bensiwn mae'r adroddiad yma ynglŷn â graddfeydd arfaethedig sydd yn cael eu rhannu fel rhag rhybudd gyda Chyflogwyr y Cynllun. Nid yw'r wybodaeth yma wedi ei rannu o fewn cyfundrefnau rheolaethol pob un o'r Cyflogwyr yma a gall ei gyhoeddi ar y pwynt yma gael ardrawiad ar fuddiannau'r Cyflogwyr drwy danseilio eu trefniadau adrodd a pharatoi cyllid. Ar falans, roedd y Swyddog Monitro yn fodlon nad oedd budd cyhoeddus yn cefnogi cyhoeddi'r adroddiad yma.

## **7. CANLYNIADAU PRISIAN Y GRONFA BENSIWN**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn amlygu canlyniad prisiant y Gronfa Bensiwn. Nodwyd bod gwellhad yn sefyllfa'r Gronfa gyda'r lefel cyllido wedi cynyddu o 91% ar 31 Mawrth 2016 i 108% yn 31 Mawrth 2019. Nodwyd bod hyn yn newyddion da iawn.

Mewn ymateb i gwestiwn, nodwyd bod pob cyflogwr sydd yn rhan o'r gronfa yn ymwybodol o'u canlyniad unigol a bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda hwy.

**DERBYNIWYD y wybodaeth.**

## **8. AIL AGOR Y CYFARFOD I'R WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** ail agor y cyfarfod i'r wasg ar cyhoedd

## **9. DIWEDDARIAD AM BERFFORMIAD BUDDSODDI'R GRONFA BENSIWN 2019/2020**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn diweddarau'r Aelodau o'r gwaith monitro a pherfformiad buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn. Amlygwyd bod y Gronfa mewn sefyllfa gymharol iach gyda gwerth y gronfa wedi cynyddu yn raddol ers 2010 gyda pherfformiad buddsoddiadau'r gronfa wedi bod uwchben y meincnod ymhob un o'r cyfnodau a fesurwyd.

Adroddwyd bod dychweliadau positif ar fondiau ac ecwiti ynghyd a dychweliadau eithaf cyson mewn buddsoddiadau eiddo. Eglurwyd mai'r brif ffactor oedd yn effeithio'r sefyllfa ariannu rhwng 2016 a 2019 oedd y cynnydd o £505 miliwn o'r enillion buddsoddi. Nodwyd bod cyfran o'r cynnydd yn ganlyniad i gyfraddau cyfnewid arian gan fod y Gronfa wedi'i brisio yn nhermau punnoedd, ar asedau wedi'u rhestru yn nhermau arian tramor e.e. ewro a doleri. Ategwyd, fodd bynnag, bod mwyafrif o symudiad yng ngwerth y Gronfa yn gynnydd gwirioneddol mewn arian lleol oherwydd perfformiad ffafriol asedau'r Gronfa.

Mynegwyd bod sefyllfa pob cyflogwr unigol o'r Gronfa yn wahanol ond yn gyffredinol bod cryfder y Gronfa wedi caniatáu cymryd agwedd hyblyg tuag at gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr fydd yn effeithiol o Ebrill 2020.

Diolchwyd am y wybodaeth. Nodwyd bod y sefyllfa yn edrych yn dda iawn.

**DERBYNIWYD y wybodaeth**

**10. CYFATHREBU AG AELODAU HEN A NEWYDD**

Mewn ymateb i bryderon y Bwrdd bod aelodau ifanc yn optio allan o'r Cynllun Pensiwn cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn manylu ar y gwaith cyfathrebu sydd yn cael ei wneud i ymgysylltu gydag Aelodau i geisio eu hannog i aros yn y Cynllun. Trafodwyd y drefn ymuno ac optio allan ynghyd a sut mae'r Cynllun yn cael ei hyrwyddo. Eglurwyd bod cais wedi ei wneud i adrannau Cyflogau Cynghorau Gwynedd, Conwy a Môn am wybodaeth o'r nifer o staff sydd wedi optio allan o'r Cynllun. Er mai un ymateb a dderbyniwyd a hwnnw gan Cyngor Gwynedd, roedd yn rhoi darlun eithaf clir o'r sefyllfa.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y materion canlynol fel rhai oedd angen sylw:

- Cynnwys mwy o wybodaeth yn y pecyn ymuno gyda manylion llawn o'r buddion
- Cynnal ymgyrch i hybu staff o dan 40 oed i ymaelodi gyda'r Cynllun Pensiwn
- Awgrym bod angen anfon llythyr cyn y cyflog cyntaf yn rhoi manylion swm y taliad
- Cymharu sut mae cronfeydd eraill yn cyfathrebu gyda staff - cais am enghreifftiau o'u llawlyfrau / pecyn ymuno
- Holi staff sydd yn dewis optio allan am eu rhesymau dros eu dewis

**PENDERFYNWYD**

- derbyn y wybodaeth

- gwneud cais am ymateb i'r sylwadau uchod erbyn y cyfarfod nesaf

**11. DIWEDDARIAD McCLOUD**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn diweddarar'r Bwrdd ar effaith canlyniad dyfarniad McCloud ar weinyddwyr cronfeydd a chyflogwyr sydd yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Adroddwyd ers penderfyniad y Goruchaf Lys (Mehefin 2019) i wadu hawl y Llywodraeth i apelio i'r penderfyniad bod amddiffyniadau danategiad yn anghyfreithlon oherwydd gwahaniaethu ar sail oedran, nid oedd arweiniad wedi ei gyflwyno o ganlyniad i ddyfarniad y Llys Apêl. Ategwyd bod trafodaethau am yr effaith debygol yn cael eu cynnal gyda'r ymgynghorydd buddsoddi, Hymans Robertson.

**DERBYNIWYD y wybodaeth****12. DETHOL CYNRYCHIOLWYR AR GYFER MYNYCHU DIGWYDDIADAU**

Cyflwynwyd adroddiad yn hysbysu'r aelodau am gynadleddau a digwyddiadau perthnasol er mwyn ceisio enwebiadau ar gyfer mynychu ar ran Cronfa Pensiwn Gwynedd.

**PENDERFYNWYD ar y canlynol**

Cyflwyniad Link a Russell

16 Ionawr 2020

**Osiar Richards, Hywel Eifion Jones a Sharon Warnes**

'LGC Investment Seminar', Carden Park, Swydd Gaer

27 – 28 Chwefror 2020

**Hywel Eifion Jones, Huw Trainor a Sharon Warnes**

### 13. Y RHEOLYDD PENSIYNAU: AROLWG TREFN LLYWODRAETHOL GWASANAETH CYHOEDDUS 2019

Cyflwynwyd arolwg oedd wedi ei gyhoeddi gan y Rheolydd Pensiynau ar gyfer pob Rheolwr Cynllun Lleol. Amlygwyd mai Cyngor Gwynedd yw Rheolwr Cynllun Lleol ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd ac felly gyda chyfrifoldeb i gwblhau'r arolwg ar y cyd gyda Chadeirydd y Bwrdd Pensiynau. Eglurwyd mai'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion oedd 29 Tachwedd 2019, ond ymestynnwyd y terfyn amser gan y Rheolydd er mwyn derbyn mewnbwn y Bwrdd.

Yn unol â phenderfyniad y Cadeirydd i dderbyn mewnbwn Aelodau'r Bwrdd i'r arolwg, cwblhawyd a chyflwynwyd yr arolwg ar-lein i wefan y Rheolydd Pensiynau yn ystod y cyfarfod.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y materion canlynol fel rhai oedd angen sylw:

- Bod angen cofrestr o fuddiannau Aelodau'r Bwrdd Pensiwn (A2)
- Bod angen i Reolwr y Cynllun neu'r Bwrdd Pensiwn gynnal gwerthusiad swyddogol o'r wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'r Bwrdd mewn perthynas â rhedeg y Cynllun (A6).
  - Awgrym trafod y Polisi Cyfathrebu yn y cyfarfod nesaf.
  - Strategaeth Weinyddol o'r Cynllun - awgrym i edrych ar esiamplau eraill.
  - Angen diweddarau polisïa - rhai dogfennau yn hanesyddol
- Bod angen cynnwys a chydabod risg seibir ar gofrestr risg y Cynllun (B4)
- Bod angen adrodd i'r Rheolydd Pensiynau y dyddiad cau a fethwyd ar gyfer cyhoeddi datganiadau aelodau gweithredol (F2)
- Bod angen cofnodi rhesymeg dros beidio adrodd ar unrhyw dor-cyfraith (F3). Cywirdeb yn bwysicach na chyrraedd targed. Ystyried eitem ar gyfer y cyfarfod nesaf

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 4:00pm

---

## PWYLLGOR PENSIYNAU 16.01.2020

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr: John Pughe Roberts (Cadeirydd), Stephen Churchman, John Brynmor Hughes, Peredur Jenkins, Peter Read, Ioan Thomas a Robin Williams (Cyngor Ynys Môn)

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Delyth Wyn Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Eraill a wahoddwyd: Osian Richards (arsylwi – Cadeirydd Bwrdd Pensiwn),

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr David Cowans (Cyngor Bwrdeistref Conwy) ac Aled Wyn Jones

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi.

### 3. MATERION BRYN

Dim i'w nodi

### 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 29 Gorffennaf 2019 fel rhai cywir.

### 5. COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL Y GRONFA BENSIWN

Cyflwynwyd er gwybodaeth gofnodion cyfarfod blynyddol y Gronfa Bensiwn a gynhaliwyd 24ain o Hydref 2019

### 6. CYMERADWYO CYLLIDEB 2020 / 2021

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn ymwneud a chais i'r Pwyllgor gymeradwyo cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020–2021, ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.

Tynnwyd sylw at rai addasiadau i'r gyllideb ynghyd a chais am gynnydd i gyllideb hyfforddiant a chostau meddalwedd i'r Uned Gweinyddu Pensiynau. Cymeradwywyd addasiadau cyllideb o £140,940 a daw hyn a cyfanswm cyllideb yr Uned Gweinyddu Pensiynau i £1,015,700 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21. Yn yr un modd, tynnwyd sylw at gais i addasu oriau gwaith a graddfeydd cyflogau swyddogion sydd wedi rhannu eu horiau rhwng Cronfa Bensiwn Gwynedd a Chyngor Gwynedd o fewn yr Uned Buddsoddi. Cymeradwywyd addasiadau cyllideb o £21,240, a daw hyn a cyfanswm cyllideb yr Uned Buddsoddi a ariannir gan y Gronfa Bensiwn i £110,460 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag os oedd yr addasiadau yn cyfiawnhau ymrwymiad o'r gronfa, nodwyd eu bod yn cael eu cynnwys fel 'adnodd ychwanegol'.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo cyllideb blwyddyn ariannol 2020/21 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau ac Uned Buddsoddi gan gynnwys yr adnoddau ychwanegol.**

## **7. RHEOLAETH TRYSORLYS 2019 / 20 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth adroddiad yn amlygu gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Amlygwyd, yn ystod y chwe mis rhwng y 1af o Ebrill a 30 Medi 30ain 2019 bod gweithgarwch benthyca'r Cyngor wedi aros o fewn cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol ac nad oedd unrhyw fanciau lle'r oedd y Cyngor wedi adnau arian wedi methu ad-dalu. Ategwyd yr amcangyfrifir bod incwm buddsoddi'r Cyngor yn rhagori ar incwm disgwylidig cyllideb 2019 / 20.

Eglurwyd bod ychydig o fuddsoddiadau'r Cyngor mewn cronfeydd eiddo ac ecwiti cyfun strategol sydd yn cael eu rheoli yn allanol lle mae diogelwch a hylifedd tymor byr yn llai o ystyriaeth. O ganlyniad gwiredir yr amcanion drwy incwm refeniw rheolaidd a sefydlogrwydd prisiau hirdymor.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

## **8. DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO 2020 / 21 – 2023 / 24**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn gwneud cais i'r Pwyllgor gadarnhau tybiaethau a pholisïau yn y Datganiad Strategaeth Cyllido drafft cyn ymgynghori a'r holl gyflogwyr. Adroddwyd i'r Pwyllgor bod gofyn statudol i adolygu a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Cyllido tair-blyneddol erbyn 31.3.2020. Fel rhan o'r adolygiad, rhaid i'r awdurdod gweinyddol, ymgynghori gyda phob cyflogwr sydd yn rhan o'r cynllun, gydag actiwari ac ymgynghorwyr y gronfa, ac unrhyw bersonau eraill y maent yn eu hystyried yn addas.

Eglurwyd bod prisiad actiwaraid tair-blyneddol y Gronfa wrthi yn cael ei baratoi ac fe roddodd yr Actwari Hymans Robertson gyflwyniad o'r broses a'r canlyniadau i'r Cyflogwyr mewn cyfarfod yng Nghaernarfon 24/10/2019. Amlygwyd bod y rhagdybiaethau wedi eu cytuno gyda'r cyfnodau adfer diffyg ar gyfer y gwahanol gategoriâu o gyflogwr yn ddarbodus ac yn gyson gyda'r prisiad blaenorol (2016).

Trafodwyd y Datganiad Strategaeth Cyllido Drafft (oedd wedi ei baratoi gan Hymans) a tynnwyd sylw at rai materion – cyfeiriwyd yn benodol at adran 3 o'r adroddiad.

- Cyfrifon cyfran asedau - amlygwyd bod y Gronfa wedi mabwysiadu dull llif arian ar gyfer olrhain asedau cyflogwyr unigol. Ategwyd bod gofyn cyflwyno'r wybodaeth yn fisol a bod ystyriaethau i'r gofyn ychwanegol hwn wedi ei gynnwys yng nghyllideb yr Uned.
- Premiwm Risg Ecwiti - amlygwyd wrth i'r gwahaniaeth tybiedig rhwng yr adenillion disgwylidig gynyddu, mae'r risg yn cynyddu a'r sail ariannu yn mynd yn llai darbodus. Nodwyd bod yr enillion dros ben a ragwelir o'r tybiaethau ecwiti ar gyfer 2019 yn 1.7%
- Cyfnodau Adfer Diffyg wedi eu cyflwyno ar gyfer prisiad 2019
- Casglu Diffyg - bydd y diffyg yn cael ei gasglu fel canran o dal yn hytrach na chyfundaliad blyneddol (oedd yn cael ei dalu mewn 12 rhandaliad misol)

- Cyflogwr Sefydlog – bod rhaid i bob cyflogwr sefydlog dalu cyfradd sylfaenol fel lleiafswm dros y tair blynedd nesaf. Amrywiadau posib wedi eu nodi yn yr adroddiad
- Cyflogwyr Ansefydlog - mae'r cyfraddau cyfrannu ar gyfer cyflogwyr, sydd ar gau i newydd-ddyfodiaid, ac sy'n anelu tuag at ddarfyddiad, wedi cael eu gosod yn gyfartal â chyfraddau sylfaenol y cyflogwyr
- Cyfnod Graddol o Gynyddu Cyfraniad – bydd y rheoliadau'n caniatáu i'r holl gyflogwyr gynyddu eu cyfraniadau'n raddol – ar gyfer prisiad 2019 gall y cynnydd gael ei rannu dros 3 blynedd

#### **PENDERFYNWYD**

- **derbyn y rhagdybiaethau a'r Polisiau**
- **yn dilyn y broses ymgynghori, derbyn Datganiad Strategaeth Cyllido (DSC) derfynol i'w mabwysiadu erbyn 31 Mawrth 2020.**

### **9. CAU ALLAN Y WASG AR CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** cau allan y wasg ar cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Er bod budd cyhoeddus mewn cael dealltwriaeth o weithredu'r gronfa bensiwn mae'r adroddiad yma ynglŷn â graddfeydd arfaethedig sydd yn cael eu rhannu fel rhag rhybudd gyda Chyflogwyr y Cynllun. Nid yw'r wybodaeth yma wedi ei rannu o fewn cyfundrefnau rheolaethol pob un o'r Cyflogwyr yma a gall ei gyhoeddi ar y pwynt yma gael ardrawiad ar fuddiannau'r Cyflogwyr drwy danseilio eu trefniadau adrodd a pharatoi cyllid. Ar falans, roedd y Swyddog Monitro yn fodlon nad yw'r budd cyhoeddus yn cefnogi cyhoeddi'r adroddiad yma.

### **10. CANLYNIADAU PRISIAN Y GRONFA BENSIWN**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn amlygu canlyniad prisiant y Gronfa Bensiwn. Nodwyd bod gwellhad yn sefyllfa'r Gronfa gyda'r lefel cyllido wedi cynyddu o 91% ar 31 Mawrth 2016 i 108% yn 31 Mawrth 2019. Nodwyd bod hyn yn newyddion da iawn.

Tynnwyd sylw at yr atodiad oedd yn cynnwys manylion cyfraniadau cyflogwyr. Nodwyd bod pob cyflogwr sydd yn rhan o'r gronfa yn ymwybodol o'u canlyniad unigol a bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda hwy. Mynegwyd bod y sefyllfa yn un galonogol iawn.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn a hawliau'r cyflogwyr i herio'r cyfraniadau / rhagdybiaethau, nodwyd bod gan y cyflogwyr hawl i herio egwyddorion y Gronfa fel rhan o'r ymgynghoriad, ond y Gronfa, gyda chynghor a chefnogaeth yr Actiwari, Hymans Robertson, sydd yn penderfynu ar y cyfraniadau terfynol.

Cynigiwyd bod datganiad i'r wasg yn cael ei ryddhau, pan yn amserol, yn amlygu'r newyddion.

#### **PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben 1:35pm

# Eitem 6



<b>Cyfarfod:</b>	Bwrdd Pensiwn
<b>Dyddiad:</b>	03/03/2020
<b>Teitl:</b>	Gweinyddiaeth Pensiynau
<b>Awdur:</b>	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau
<b>Pwrpas:</b>	Er gwybodaeth

## **Cyflwyniad**

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg cyffredinol o weinyddu pensiwn dros y 6 mis diwethaf. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y gwaith a gyflawnwyd dros y cyfnod, diweddariad ar wahanol brosiectau a grybwyllwyd yn flaenorol, newidiadau yn y rheoliadau a hefyd yn rhestru'r heriau y mae'r adran yn eu hwynebu o ddydd i ddydd.

## **Staffio**

Ers y diweddariad gweinyddiaeth diwethaf mae Nicholas Hopkins wedi ymddeol fel Rheolwr Pensiynau, gyda Meirion Jones yn cymryd yr awenau'n llwyr ar 1af Rhagfyr 2019. Oherwydd y newid hwn mae cyfweiliadau wedi bod yn cael eu cynnal dros yr ychydig fisoedd diwethaf i staffio'r adran yn llawn. Felly rydym wedi dyrchafu nifer o staff i'r rolau canlynol:

- Uwch Swyddog Cyfathrebu - Glesni Jones
- Swyddog Cyfathrebu - Bronwen Williams
- Technegydd Pensiynau - Leanne Hunt-Hughes

Erbyn dyddiad cyfarfod y Bwrdd Pensiwn, gobeithio y byddwn wedi cyflogi Cymhorthydd Pensiynau newydd.

## **i-Connect**

Mae i-Connect yn diweddarau data aelodau yn ein system gweinyddu pensiynau yn fisol, gan osgoi'r angen i gyflogwyr anfon gwybodaeth ar ddiwedd y flwyddyn.

Cymerir data yn uniongyrchol o system gyflogres gan i-Connect sydd wedyn yn nodi ac yn cyflwyno manylion am aelodau newydd, y rhai sydd optio allan a ymadawyr i ni yn awtomatig.

Ers y diweddariad gweinyddiaeth diwethaf, gwnaed cynnydd mawr gyda'r prosiect i-Connect.



Mae Cyngor Gwynedd bellach yn cyflwyno eu manylion yn fisol, ac mae'r gwaith wedi dechrau symyd Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i'r system i-Connect. Y gobaith yw y bydd y ddau gyflogwr yn fyw ar y system cyn diwedd y flwyddyn dreth 2019/20.

Mae hyn bellach yn gadael dim ond dau gyflogwr sydd ddim yn defnyddio i-Connect i gyflwyno eu manylion. Bydd gwaith yn mynd rhagddo yn y flwyddyn dreth 2020/21 i symud y cyflogwyr hyn i i-Connect.

### **Hunan Wasanaeth Aelodau**

Y gobaith oedd y byddai'r wefan Hunan Wasanaeth Aelodau (HWA) newydd yn gweithio erbyn diwedd 2019. Yn anffodus, oherwydd yr amrywiol faterion technegol, ni fu hyn yn bosibl. Fodd bynnag, mae'n obeithiol erbyn i'r cyfarfod Bwrdd Pensiwn gael ei gynnal y bydd y system newydd yn fyw.

Bydd y wefan newydd yn rhoi gwell profiad ar-lein i'n haelodau, gyda rhyngwyneb sy'n edrych mwy deniadolac yn haws i'w ddefnyddio. Mae'r system HWA yn caniatáu i aelodau:

- Gweld a diweddarau manylion personol a newidiadau cyfeiriad
- Darganfod faint y byddant yn ei dderbyn wrth ymddeol
- Cyfrifo'r swm y lwmp swm ychwanegol y gallant ei gymryd wrth ymddeol
- Gweld hanes eu gwasanaeth, gan gynnwys unrhyw wasanaeth sydd wedi'i drosglwyddo
- Gweld a diweddarau eu buddiolwyr enwebedig
- Gweld eu Datganiadau Buddion Blynyddol

### **Hyfforddiant**

Yn y diweddariad diwethaf, soniwyd bod pedwar aelod o staff wedi dechrau astudio tuag at Radd Sylfaen mewn Gweinyddu a Rheoli Pensiynau. Mae'r radd sylfaen yn gymysgedd o aseiniadau ac arholiadau a bydd yn cymryd 2 flynedd i'w chwblhau. Rwy'n falch o adrodd bod y pedwar yn dod ymlaen yn dda gyda'r cwrs hwn, gyda'r holl aseiniadau ac arholiadau hyd yn hyn wedi'u cwblhau'n llwyddiannus.

Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi yn ddiweddar ar lwfans blynyddol ac oes i staff perthnasol yr adran gan Ian Colvin, Pennaeth Ymgynghoriaeth Budd-daliadau Hymans Robertson. Edrychodd y sesiwn hon ar gyfrifiadau heriol lwfans blynyddol ac oes. Derbyniwyd adborth cadarnhaol a gobeithir y bydd y sesiwn yn ein helpu i ddeall yn well y set gymhleth hon o reoliadau.

### **Pensiynau'n Cynyddu**

Y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer Medi 2019 oedd 1.7%. Dylai hyn fod y ffigur a ddefnyddiwyd ym mis Ebrill 2020 i gynyddu taliadau pensiwn ar gyfer ein Pensiynwyr a'n buddion gohiriedig.

Anfonir llythyr ym mis Ebrill at ein holl bensiynwyr i'w hysbysu o'u swm pensiwn uwch a'u dyddiadau talu ar gyfer 2020/21.

### **Mesur Data**

Yn 2015, cymerodd y Rheoleiddiwr Pensiynau (yRP) gyfrifoldeb am Gynlluniau Pensiwn y Sector Cyhoeddus. Cyn hynny, ym mis Mehefin 2010, cyhoeddodd y yRP arweiniad ar yr

ymagwedd y maen nhw'n ei ystyried yn arfer da i fesur presenoldeb data aelodau.

Fe wnaethom gomisiynu ein darparwr meddalwedd, Aquila Heywood i gynhyrchu Adroddiad Ansawdd Data ar gyfer ein Cronfa ym mis Medi 2019.

Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n ddwy adran:


- **Data Cyffredin:** e.e. enw, cyfeiriad, rhif YG, rhyw, dyddiad geni, statws a dyddiad cychwyn
- **Data Penodol i'r Cynllun:** e.e. buddion yn y cynllun, manylion trosglwyddo, CGY, manylion cyflog, cyfraniadau, gwasanaeth, lwfans oes, lwfans blynyddol a IPG.

Rydym yn rhoi isod grynodedb o'r canlyniadau:

### **Crynodeb o'r Canlyniadau Data Cyffredin**


Mae'r graff isod yn dangos perfformiad Gwynedd ar gyfer pob categori data yn erbyn meincnodau'r cynllun y cytunwyd arnynt ynghyd â chanlyniadau profion 2018. Mae'r canlyniadau a gyflwynir yma yn cael eu cynhyrchu o ddata a dynnwyd o Wasanaeth Byw Altair Gwynedd ar 12 Medi 2019 ar gyfer pob prawf. Canran gyffredinol y profion a basiwyd ar gyfer data cyffredin Gwynedd yw **99.4%** sy'n welliant dros sgôr 2018 o **99.3%**.

Cyflawnodd 7 o'r 8 categori'r meincnod uchaf o fwy na 98% gydag 2 categori heb gofnodi methiant unigol. Mae 3 categori arall wedi'u talgrynnu i 100% gyda chyfraddau pasio dros 99.95%. Yr unig gategori na gyrhaeddodd y meincnod uchaf dan sylw oedd **cyfeiriadau aelodau** gyda sgôr o **96.9%**. Ac eithrio cyfeiriadau aelodau, mae ansawdd cyffredinol y data cyffredin yng Ngwynedd o safon uchel. Mae angen gwneud rhywfaint o waith i olrhain aelodau a gofnodwyd fel rhai sydd "wedi diflannu" i ddod â'r categori hwn i'r meincnod uchaf. Canran y cofnodion aelodau heb fethiant data cyffredin yw **96.9%** (94.9% blwyddyn diwethaf) a dyma'r ffigwr y bydd yRP yn ei dderbyn ar ddychweliadau'r cynllun.



### Crynodeb o Ganlyniadau Data Penodol y Cynllun

Mae'r graff isod yn dangos perfformiad Gwynedd ar gyfer pob categori data yn erbyn meincnodau'r cynllun y cytunwyd arnynt ynghyd â chanlyniadau profion 2018. Mae'r canlyniadau a gyflwynir yma yn cael eu cynhyrchu o ddata a dynnwyd o Wasanaeth Byw Altair Gwynedd ar 12 Medi 2019 ar gyfer pob prawf. Y ganran gyffredinol o brofion a basiwyd ar gyfer data cynllun-benodol yw **96.1%**. Canran y cofnodion aelodau heb fethiant data unigol sy'n benodol i'r cynllun yw **91.7%** (81.6%) a dyma'r ffigur y bydd yRP yn ei dderbyn ar ddechrau'r cynllun.



Mae cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu mewn perthynas â gweithredu unrhyw lanhau data a amlygwyd fel rhan o'r ymarfer hwn a disgwyllir i'r glanhau data hwn wella'r sgoriau data ar gyfer y flwyddyn nesaf.

CYFARFOD:	<b>BWRDD PENSIWN</b>
DYDDIAD:	<b>3 MAWRTH 2020</b>
TEITL:	<b>DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU</b>
PWRPAS:	<b>HYSBYSU'R BWRDD AM BARTNERIAETH PENSIWN CYMRU</b>
ARGYMHELLIAD:	<b>NODI'R WYBODAETH</b>
AWDUR:	<b>DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI</b>

---

## 1. Cyflwyniad


Mae'r cydweithio wedi bod yn mynd o nerth i nerth ers ei sefydlu yn 2017 gyda swyddogion yn cwrdd yn aml. Mae'r perfformiad hyd yn hyn wedi bod yn safonol iawn ac mae nifer o ddatblygiadau ar y gweill ac felly, mae'r papur yma'n diweddarau'r Bwrdd ar y sefyllfa.

## 2. Perfformiad

Trosglwyddwyd £606.2M o fuddsoddiadau ecwiti i gronfa PPC yn Chwefror 2019, gyda'r swm wedi ei rhannu yn gyfartal i'r ddau gronfa canlynol:


- **Cronfa Global Growth** (Baillie Gifford, Veritas a Pzena)
- **Cronfa Global Opportunities** (Morgan Stanley, Numeric, Sanders, Jacobs Levy, SW Mitchell, NWG ac Oaktree)

### Cronfa Global Growth



Mae'r perfformiad yn 0.23% yn uwch na'r meincnod ers sefydlu gyda perfformiad cryf gan Baillie Gifford yn benodol.

## Cronfa Global Opportunities



Mae'r perfformiad yn 1.08% uwch na'r meincnod gyda perfformiad cryf gan Morgan Stanley, Sanders SW Mitchell yn benodol.

### 3. Trosglwyddiad Incwm Sefydlog

Ym mis Ebrill 2020, bydd ein buddsoddiad presennol gyda Fidelity (Ecwiti byd eang) a Insight (Bondiau) yn cael ei drosglwyddo i'r ddau gronfa Incwm Sefydlog canlynol:

- **Multi Asset Credit Fund**

Bydd £161.6M (gwerth ar 31/12/19) o Fidelity yn trosglwyddo i'r gronfa yma

- **Absolute Return Fund**

Bydd £292.0M (gwerth ar 31/12/19) o Insight yn trosglwyddo i'r gronfa yma

### 4. Datblygiadau

#### 4.1 Marchnadoedd Datblygol

Yn dilyn y trosglwyddiad Incwm Sefydlog ym mis Ebrill, y trosglwyddiad nesaf a fydd yn digwydd yw Marchnadoedd Datblygol- mae gwaith ar y gweill ar y funud i benderfynu y strwythur rheolwyr buddsoddi delfrydol i'r cronfa newydd yma.

Bydd cronfa Gwynedd yn symud ein cyfran Marchnadoedd Datblygol o gwmni Fidelity i'r gronfa yma.

#### 4.2 Marchnadoedd Preifat

Mae grwp wedi ei sefydlu yn edrych ar yr opsiynau o gyfuno asedau i'r categori yma. Mae'r grwp yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn sefydlu beth yw gofynion pob Cronfa.

#### 4.3 Buddsoddiadau Carbon Isel

Mae Russell Investments yn ymwybodol o bwysigrwydd buddsoddi cyfrifol gyda gofynion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethol, ac felly yn edrych am ffyrdd o gwrdd a'r anghenion yma wrth ddatblygu ffurf a rheolaeth cronfeydd PPC.

#### 4.4 Cynrychiolaeth o'r Byrddau Pensiwn ar Gyd-bwyllgor y Bartneriaeth

Mae'r Cyd- bwyllgor llywodraethu yn cynnwys un aelod etholedig a enwebwyd gan bob un o'r awdurdodau cyfansoddol sef cadeirydd pwyllgor pensiynau'r awdurdod cyfansoddol hwnnw. Mae cynrychiolwyr enwebedig o'r wyth bwrdd pensiwn yng Nghymru yn cyfarfod bob chwe mis ar ddiwrnod ymgysylltu gyda'r awdurdod cynnal (Cyngor Sir Caerfyrddin), gweithredwr PPC a swyddogion o'r awdurdodau cyfansoddol. Mae dau gyfarfod eisoes wedi'u cynnal ac mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol ac yn adeiladol iawn. Bydd y cyfarfod ymgysylltu nesaf ar yr 2il o Ebrill.

Mae'r Cyd- bwyllgor llywodraethu ar y 12fed o Fawrth am edrych os yw'r trefniadau yma dal yn briodol a gweld os yw'r bosib gwella'r trefniadau llywodraethu.

### 5. Argymhelliad

Ymhellach i gyflwyniad cynrychiolwyr Link a Russell i gyfarfod Pwyllgor Pensiynau Gwynedd, lle roedd 3 aelod o'r Bwrdd yn bresennol, gofynnir i'r Bwrdd nodi'r wybodaeth.

# Eitem 8



<b>Cyfarfod:</b>	Bwrdd Pensiwn
<b>Dyddiad:</b>	03/03/2020
<b>Teitl:</b>	Cyfathrebu ag aelodau newydd ac ifanc - diweddariad
<b>Pwrpas:</b>	Er gwybodaeth yn unig
<b>Awdur:</b>	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau

## Cyflwyniad

Mewn cyfarfod diweddar o'r Bwrdd mynegodd aelodau bryderon bod aelodau ifanc yn optio allan o'r cynllun pensiwn ac cwestiynu sut mae'r Gronfa'n ymgysylltu â'i haelodau i geisio eu hannog i aros yn y cynllun.

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn ymlaen o'r drafodaeth a gynhaliwyd yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd ar 10fed Rhagfyr 2019.

## Pwy all ymuno?

Er mwyn gallu ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) mae angen i unigolyn fod o dan 75 oed a gweithio i gyflogwr sy'n cynnig aelodaeth o'r cynllun.

Os yw unigolyn yn cychwyn swydd ble mae'n gymwys i fod yn aelod o'r CPLIL, bydd yn cael ei ddwyn i mewn i'r cynllun os yw ei gontract cyflogaeth am 3 mis neu fwy. Os yw am lai na 3 mis gallant ddewis ymuno trwy lenwi ffurflen gais.

## Beth sy'n cael ei anfon at aelodau pan fyddant yn ymuno â'r cynllun?

Rhaid i ni ddarparu gwybodaeth sylfaenol am y cynllun i aelodau newydd a darpar aelodau, megis sut mae buddion yn cael eu cyfrifo, sut mae cyfraniadau aelodau a chyflogwyr yn cael eu cyfrifo ac ati cyn gynted â phosibl, ond beth bynnag, o fewn un mis o'r dyddiad y mae'r cyflogwr yn hysbysu ni o aelod newydd neu cyn pen deufis o'r dyddiad y daeth yr unigolyn yn aelod o'r cynllun.

Er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau rhoddir pecyn cychwynnol (**Gweler Atodiad A**) i bob aelod newydd. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys copi o lyfryn y cynllun (**Gweler Atodiad B**) sy'n egluro holl fuddion y cynllun, ffurflen mynegiant dymuniad grant marwolaeth, ffurflen trosglwyddo buddion a gwybodaeth ar sut i gofrestru ar gyfer gwefan Hunan Wasanaeth Aelodau.



Anfonir y pecyn hwn cyn gynted â phosibl ar ôl sefydlu cofnod ar ein system. Gan fod y rhan fwyaf o gyflogwyr bellach yn defnyddio i-Connect, anfonir y pecyn hwn unwaith y bydd yr aelod yn ymddangos am y tro cyntaf ar y ffeil i-Connect.

Mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn cynnal sesiynau sefydlu ar gyfer aelodau staff newydd. Ymdrinnir â buddion y cynllun pensiwn yn y sesiynau hyn hefyd.

## **Optio Allan**

Tra bod mwyafrif yr aelodau'n aros yn y CPLIL, mae nifer fach yn penderfynu optio allan o'r cynllun. Os bydd aelod yn optio allan o'r CPLIL cyn cwblhau 3 mis o aelodaeth, cânt eu trin fel pe na bai erioed wedi bod yn aelod a bydd y cyflogwr yn ad-dalu unrhyw gyfraniadau pensiwn a wnaed trwy eu cyflog. Os bydd aelod yn optio allan o'r CPLIL ac wedi bod yn aelod am 3 mis neu fwy ond nad ydynt wedi cwblhau'r cyfnod cymhwys 2 flynedd (a elwir y cyfnod breinio) - gallant gymryd ad-daliad o'u cyfraniadau (llai unrhyw ddiidyniadau statudol) neu drosglwyddo eu pensiwn i gynllun pensiwn cymwys arall. Os oes gan yr aelod fwy na 2 flynedd o aelodaeth gohirir eu buddion yn y cynllun nes oed ymddeol.

## **Pam mae aelodau'n optio allan o'r cynllun?**

Wrth siarad ag aelodau, y prif resymau dros optio allan yw:

- Methu fforddio talu pensiwn
- Cyfrannu at bensiwn preifat
- Mae aelodau hŷn yn teimlo y byddai'r amser byr cymharol y byddent yn ei dreulio yn y cynllun yn cynhyrchu pensiwn bach yn unig.
- Rhy ifanc i ddechrau talu pensiwn
- Benthyciad myfyriwr i'w dalu
- Dewisiadau amgen mwy deniadol yn ariannol i bensiwn e.e. ISA neu fuddsoddi mewn eiddo
- Costau gofal plant uchel

O'r rhestr uchod y prif reswm dros optio allan yw'r methu fforddio talu pensiwn.

## **Beth sy'n cael ei anfon at aelodau pan maen nhw'n optio allan?**

Er mwyn optio allan mae'n rhaid i'r aelod gysylltu â'r adran Bensiwn i ofyn am ffurflen optio allan. Ynghyd â'r ffurflen optio allan hon rydym yn anfon llythyr (**Gweler Atodiad C**) at yr aelod sy'n nodi buddion o fod yn aelod o'r cynllun. Mae'r buddion hyn yn cynnwys:

- Pensiwn gwarantedig, sy'n cynyddu'n flynyddol, yn daladwy am oes, ac yn seiliedig ar gyflog.
- Opsiwn ar gyfer lwmp swm di-dreth wrth ymddeol.
- Lwmp swm grant marwolaeth tair gwaith o dâl os yw aelod yn marw mewn gwasanaeth, wedi'i dalu i'r bobl y maent wedi'u henwebu.
- Pensiwn ar gyfer gŵr, gwraig, partner sifil neu eu partner cyd-fyw cymwys.
- Pensiwn os yw'r aelod yn mynd yn rhy sâl i weithio.
- Ymddeoliad cynnar os yw'r aelod yn 55 oed neu'n hŷn ac yn cael ei ddiswyddo.
- Rhyddhad treth ar gyfraniadau.
- Opsiynau i helpu i gael mwy o fuddion trwy dalu'n ychwanegol.
- Cyfraniadau gan y cyflogwr.

Fel dewis arall yn lle optio allan mae yna hefyd adran 50/50 o'r cynllun. O dan yr adran hon mae'r aelod yn dewis talu hanner eu cyfradd cyfrannu arferol a chronni hanner eu pensiwn arferol wrth gadw gwarchodaeth bywyd a marwolaeth lawn. Mae'r adran hon wedi'i chynllunio i helpu aelodau i aros yn y cynllun, gan adeiladu buddion pensiwn gwerthfawr, ar adegau o galedi ariannol. Anfonir gwybodaeth am yr adran hon a ffurflen gais at aelodau pan anfonir ffurflen optio allan i'r aelodau.

Trwy anfon gwybodaeth am fuddion y cynllun a gwybodaeth ar adran 50/50 gobeithiwn y gallwn annog aelodau i beidio ag optio allan o'r cynllun. Rydym hefyd yn ceisio sôn am fuddion y cynllun ac adran 50/50 y cynllun os ydym yn derbyn galwadau ffôn gan aelodau sydd eisiau optio allan.

### **Sut mae cronfeydd eraill yn cyfathrebu ag aelodau?**

Mae'r rhan fwyaf o gronfeydd yn dilyn proses debyg o ran anfon gwybodaeth at aelodau newydd o'r cynllun, gyda llyfryn am y cynllun, ffurflen mynegiant dymuniad grant marwolaeth a ffurflen trosglwyddo pensiwn yn cael ei ddarparu.

Mae'r pecynnau cychwynnol hyn naill ai'n cael eu darparu gan y cyflogwr ar ôl i'r aelod gychwyn neu fe'u hanfonir o'r gronfa bensiwn ar ôl sefydlu cofnod trwy i-Connect.

Mae nifer o gronfeydd bellach yn darparu'r dogfennau hyn yn electronig trwy ddolen i dudalen ar eu gwefan yn hytrach na chopïau papur.

Mae cyfarfod wedi ei drefnu ar 4 Mawrth 2020 gyda chynrychiolwyr o gronfeydd bensiynau Cymru i drafod materion cyfathrebu aelodau. Bydd y cyfarfod hwn yn trafod arferion gorau ac yn archwilio opsiynau i'r cronfeydd weithio gyda'i gilydd i wella'r wybodaeth a ddarperir i aelodau.

# Cyllid / Finance

## Gwasanaeth Pensiynau / Pensions Service

Rheolwr/ Manager - Mr Meirion Jones

Gofynnwch am/Ask for: Meirion Jones

☎ (01286) 679643

✉ MeirionJones2@gwynedd.llyw.cymru

Ein Cyf / Our Ref: **MJ/**

Eich Cyf / Your Ref:

24/02/2020

Annwyl XXXXXXXX

### RHEOLIADAU CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL

O dan reoliadau'r Llywodraeth rydych wedi eich cynnwys i'r Cynllun Bensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) pan ddechreuwyd eich swydd gyda ENW CYFLOGWR. ar y DYDDIAD YMUNO. Gyda phleser amgaeaf Pecyn Cychwynnwr Cronfa Bensiwn Gwynedd. Mae'r pecyn yn cynnwys:

- **Eich Hysbysiad Statudol** – Hwn sy'n profi eich aelodaeth yn y Cynllun Pensiwn - Cadwch yn saff os gwelwch yn dda.
- **Canllaw Byr i'r Cynllun** - Mae'r canllaw yn drosolwg o'r Cynllun Pensiwn ynghyd a'i fuddion.
- **Ffurflen Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth** - Gellir cwblhau'r ffurflen er mwyn enwebu unigolion neu sefydliadau i dderbyn unrhyw grant marwolaeth sy'n ddaliadwy ar eich marwolaeth. Gweler y ffurflen ar gyfer y telerau ac amodau llawn.
- **Ffurflen cychwynnwr/Ffurflen cais trosglwyddo** - Mae'n hanfodol bod y ffurflen yn cael ei gwblhau a'i ddychwelyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd ynghyd â chopiau o'r dogfennau perthnasol cyn gynted â phosib. Rhestrwch eich holl hawliau pensiwn blaenorol yn yr adran berthnasol o'r ffurflen, hyd yn oed os nad ydych yn dymuno eu trosglwyddo.

### Trosglwyddo Buddion Blaenorol

Wrth ymuno â'r Cynllun Pensiwn, mae gennych 12 mis i drosglwyddo unrhyw hawliau pensiwn blaenorol. Gellir y CPLIL dderbyn trosglwyddiadau o gynlluniau CPLIL blaenorol, cynlluniau cyflogwr blaenorol, cynlluniau hunangyflogedig, polisiau 'prynu allan', cynlluniau pensiwn personol, pensiwn hapddaliwr a threfniadau Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVC). Galluogir y ffurflen yma i ni gysylltu gyda gweinyddwyr eich cynllun pensiwn blaenorol yn syth.

Ni cheir hawliau pensiwn eu trosglwyddo yn awtomatig. Byddwch yn derbyn amcangyfrif cyn penderfynu os hoffech drosglwyddo eich buddion, ac argymhellir i chi gymryd cyngor ariannol annibynnol cyn trosglwyddo.

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian  
*Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money*

Swyddfa'r Cyngor  
Caernarfon  
Gwynedd. LL55 1SH  
01286 672255  
[www.CronfaBensiwnGwynedd.org.uk](http://www.CronfaBensiwnGwynedd.org.uk)  
[www.GwyneddPensionFund.org.uk](http://www.GwyneddPensionFund.org.uk)

## **Safle We Hunan Wasanaeth Aelodau**

Mae gan Gronfa Pensiwn Gwynedd wefan sy'n darparu gwybodaeth gyffredinol am y Cynllun, gan gynnwys gwasanaeth Hunan Wasanaeth Aelodau (HWA). Mae'r system HWA yn borth diogel sy'n eich galluogi i weld gwybodaeth bersonol ac ariannol am eich pensiwn. Ar ôl cofrestru, byddwch yn gallu:

- Gweld a diweddarau eich manylion personol a newid cyfeiriad.
- Cael amcangyfrif o'ch buddion pensiwn.
- Cyfrifo'r swm o lwmp swm ychwanegol y gallwch ei gymryd wrth ymddeol.
- Gweld hanes eich gwasanaeth, gan gynnwys unrhyw wasanaeth sydd wedi'i drosglwyddo i mewn.
- Gweld a diweddarau manylion y buddiolwyr yr ydych wedi enwebu.
- Gweld eich datganiadau blynyddol.
- Anfon negeseuon diogel i Gronfa Bensiwn Gwynedd.

Ymwelwch â'r rhan 'Hunan Wasanaeth Aelodau' ar ein gwefan: [www.cronfabensiwnwynedd.cymru](http://www.cronfabensiwnwynedd.cymru) i wneud cais am allwedd actifadu. Bydd eich cais yn cael ei e-bostio i Gronfa Bensiwn Gwynedd a byddwch yn cael allwedd actifadu. Os yw eich manylion cyswllt presennol yn cynnwys cyfeiriad e-bost, bydd dolen i gwblhau eich cofrestrriad yn cael ei e-bostio i'r cyfeiriad hwn, fel arall, bydd eich allwedd actifadu yn cael ei anfon i'ch cyfeiriad cartref presennol o fewn 3-5 diwrnod gwaith. Nodwch y bydd eich allwedd actifadu dros dro ddim ond yn gweithio am 30 diwrnod ar ôl iddo gael ei gynhyrchu, felly mae'n bwysig i chi gwblhau eich cofrestrriad cyn gynted ag y byddwch yn derbyn eich allwedd actifadu.

## **Datganiadau Buddion Blynyddol**

Bydd Datganiad Buddion Blynyddol yn amlinellu gwerth y buddion rydych wedi ei gronni yn y Cynllun Pensiwn yn cael ei osod er eich cofnod Hunan Wasanaeth ar ddiwedd bob blwyddyn treth. Os hoffwch dderbyn copïau bapur o'r datganiad yna cysylltwch â ni drwy'r post neu e-bost i wneud cais.

Yn y dyfodol, efallai bydd y datganiad hwn yn cynnwys rhagolwg Pensiwn Y Wlad. Er mwyn eich darparu gyda rhagolwg Pensiwn Y Wlad rydym angen cyfnewid eich manylion personol gyda'r Aran Gwaith a Phensiynau (DWP). Os nad ydych yn dymuno rhannu eich manylion personol gyda'r DWP yna ticiwch y blwch perthnasol ar y ffurflen cychwynnwr neu cysylltwch â ni yn ysgrifenedig - fel arall byddwn yn cymryd yn ganiataol eich bod yn fodlon i ni rannu eich manylion personol er mwyn darparu rhagolwg Pensiwn Y Wlad ar eich datganiad buddion blynyddol.

## **Nodiadau Cyffredinol**

Gwiriwch eich slip cyflog pob mis i sicrhau bod cyfraniadau pensiwn yn cael ei ddiwynnu.

Gallwch adael y CPLIL ar unrhyw adeg drwy wneud cais am ffurflen optio-allan gan yr adran bensiynau, ond dim ond o fewn y 2 flynedd gyntaf o ymuno bydd ad-daliad yn cael ei dalu. Os ydych yn optio-allan gallwch optio yn ôl i mewn i'r cynllun ar unrhyw adeg ar yr amod eich bod o dan oed 75. Argymhellir i chi gymryd cyngor ariannol annibynnol cyn gwneud penderfyniad i optio allan o'r CPLIL. Dewis arall i optio allan yw'r opsiwn 50/50. O dan yr opsiwn hwn byddwch yn talu hanner eich cyfraniadau arferol ac yn cronni hanner y pensiwn arferol - tra'n parhau i dderbyn yswiriant bywyd ac yswiriant salwch llawn. Cysylltwch â ni os hoffech ffurflen Opsiwn 50/50.

Cyngor Gwynedd yw gweinyddwr Cronfa Bensiwn Gwynedd a defnyddiwn eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaethau gweinyddu pensiwn i chi. Am ragor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio'ch data, pwy rydym yn ei rhannu â, a pha hawliau sydd gennych chi mewn perthynas â'ch gwybodaeth, ewch i'r Hysbysiad Preifatrwydd ar wefan y gronfa.



Peidiwch ag oedi i gysylltu â Chronfa Bensiwn Gwynedd os oes gennych unrhyw gwestiynau neu angen mwy o wybodaeth. Gallwch gysylltu â ni ar ☎ (01286) 679982 neu ✉ [pensiynau@gwynedd.llyw.cymru](mailto:pensiynau@gwynedd.llyw.cymru).

Dear XXXXX

### **LOCAL GOVERNMENT PENSION SCHEME REGULATIONS**

Under Government regulations you have been brought into the Local Government Pension Scheme (LGPS) upon the commencement of your employment with EMPLOYER, on DATE OF START. I have the pleasure in enclosing the Gwynedd Pension Fund starter pack. This pack includes:

- **Your Statutory Notification** – This is your proof of Pension Scheme membership – Please keep it safe.
- **A Short Scheme Guide** – This guide gives you an overview of the Pension Scheme and its benefits.
- **Starter Form/Transfer Request Form** – It is essential that this form is completed and copies of all relevant documents returned to Gwynedd Pension Fund as soon as possible. You should list all your previous pension rights in the relevant section of this form, even if you do not wish to investigate transferring them.
- **A Death Grant Expression of Wish Form** – This form may be completed in order to nominate individuals or institutions to receive any death grant payable upon your death. Please see the form for full terms and conditions.

#### **Transfer of Previous Pension Rights**

On joining the Pension Scheme you have 12 months in which to transfer any previous pension rights. The LGPS is able to accept transfers from previous LGPS funds, previous employer's pension schemes, self-employed pension plans, 'buy-out' policies, personal pension plans, stakeholder pension schemes and Additional Voluntary Contribution (AVC) arrangements. This form will allow us to communicate directly with your previous pension providers.

Pension rights will not be transferred automatically. You will receive a quotation before deciding whether you wish to transfer your benefits, and it is recommended that you take appropriate independent financial advice before transferring.

#### **Member Self Service Website**

The Gwynedd Pension Fund has a website, which gives general information on the Scheme and a Member Self Service (MSS) section. MSS is a secure portal that enables you to view personal and financial information about your pension. Once registered you will be able to:

- View and update your personal details and changes of address.
- Obtain an estimate of the possible pension you will receive on retirement.
- Calculate the amount of additional lump sum you can take on retirement.
- View your service history, including any service that have been transferred.
- View and update your nominated beneficiaries.
- View your Annual Benefit Statements.
- Send secure messages to Gwynedd Pension Fund.

Please visit the 'Member Self Service' section of our website: [www.gwyneddpensionfund.wales](http://www.gwyneddpensionfund.wales) to request your activation key. Your request will be emailed to Gwynedd Pension Fund and you will be issued an activation key. If your current contact details include an e-mail address, a link to complete your registration will be e-mailed to this address, otherwise your activation key will be sent to your current postal address within 3 - 5 working days. Please note that your activation key will expire within 30 days of it being generated, therefore it is important for you to complete your registration as soon as you receive your activation key.

### **Annual Benefit Statements**

Your Annual Benefit Statement, showing you the benefits you have accrued in the Pension Scheme, will be uploaded on the Pension On-Line website at the end of every tax year. Please send us a written request, by post or email, if you would prefer to receive paper copies of your statement.

In the future this statement may include a State Pension Forecast. In order to provide the state pension forecast we are required to exchange personal details securely with the Department of Work and Pensions (DWP). If you do not wish us to share your personal details with the DWP please tick the relevant box on the starter form or contact us in writing – If we do not hear from you we will assume that you are willing for us to share your personal details for the purpose of receiving a State Pension forecast on your annual benefit statement.

### **General Notes**

Please check your payslip each month to ensure pension contributions are being deducted.

You can leave the LGPS at any time by requesting an opt-out form from the Pension Section, although you will only be entitled to a refund of contributions if you leave the scheme within 2 years of joining. If you opt-out, you can opt back into the scheme at any time, provided that you are under age 75. You may wish to obtain independent financial advice before you make a decision to opt-out of the LGPS. An alternative to opting out is the 50/50 Option. Under this option you would pay half contributions and build up half the normal pension – whilst still receiving full life assurance and ill health cover. A 50/50 Option form is available on request.

Gwynedd Council is the administering authority of the Gwynedd Pension Fund and we use your personal data in accordance with Data Protection legislation to provide you with pension administration service. For more information about how we use your data, who we share it with and what rights you have in relation to your information, please visit the Fund's website.

Please do not hesitate to contact Gwynedd Pension Fund if you have any questions or require more information. We can be contacted on ☎ 01286 679982 or ✉ [pensions@gwynedd.llyw.cymru](mailto:pensions@gwynedd.llyw.cymru).

Yn gywir / Yours sincerely

Meirion Jones  
Rheolwr Pensiynau / Pensions Manager

**CRONFA PENSIWN CYNGOR GWYNEDD**  
Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol  
**HYSBYSIAD STATUDOL I'R GWEITHIWR**

Yn unol a'r Rheoliadau uchod, FE'CH HYSBYSWYD TRWY HYN, wedi ystyried telerau eich penodiad a manylion eich gwasanaeth a gyflwynwyd gennych, penderfynwyd eich bod yn weithiwr pensiynadwy sy'n cyfrannu i Gronfa Bensiwn Cyngor Gwynedd a rhoddir isod manylion eich gwasanaeth sy'n cyfrif yn ogystal a gwybodaeth berthnasol arall.

Os ydych yn anfodlon a'r penderfyniad isod neu'n anghytuno a'r manylion, cysylltwch a'r Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau i drafod y mater.

Os ydych yn dal yn anhapus a'r eglurhad, mae gennych hawl apelio'n ffurfiol o dan drefn apelio ddau-ran.

Mae'n rhaid cyflwyno'r cais apel gwreiddiol o fewn chwe mis o ddyddiad yr hysbyseb sy'n cynnwys y penderfyniad. Mae'n rhaid gosod allan yr anghydfod, gan gynnwys datganiad ei natur sy'n rhoi digon o fanylion i ddangos paham yr ydych yn teimlo eich bod wedi cael cam.

Mae'r rhan gyntaf yn adolygiad o'r penderfyniad gwreiddiol gan yr awdurdod neu gorff a wnaeth y penderfyniad. Felly, dylid cyfeirio'r cais i'r 'Person Penodedig' yng nghyfeiriad eich cyflogwr neu gyn-gyflogwr os ydych yn apelio yn erbyn penderfyniad y cyflogwr, neu i'r 'Person Penodedig', Yr Adain Bensiynau, Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Cyngor, CAERNARFON, Gwynedd, LL55 1SH, os yr ydych yn apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Gweinyddu.

Os ydych yn anfodlon a phenderfyniad y 'Person Penodedig' o dan rhan un mae gennych hawl apelio o dan rhan dau o'r drefn i'r Awdurdod Gweinyddu. O dan yr ail ran mae Cyngor Gwynedd, fel gweinyddwyr Cronfa Bensiwn Gwynedd, wedi dewis enwebu panel o swyddogion i benderfynu achosion, gyda'r swyddog penodol yn cael ei ddewis gan Bennaeth Gwasanaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd. Dylid felly cyfeirio apeladau o dan rhan dau i Bennaeth Gwasanaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, CAERNARFON, Gwynedd, LL55 1SH.

Mae OPAS (yr 'Occupational Pensions Advisory Service') ar gael i gynorthwyo aelodau mewn unrhyw ran o'r drefn anghydfod. Eu cyfeiriad yw: OPAS, 11 Ffordd Belgrave, LLUNDAIN, SW1V 1RB.

Dros ac ar ran yr Awdurdod Cyflogi a nodir isod a Chyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Gweinyddu

Dafydd L. Edwards  
Pennaeth Cyllid



**GWYNEDD COUNCIL PENSION FUND**  
Local Government Pension Scheme Regulations  
**STATUTORY NOTIFICATION TO EMPLOYEE**

In accordance with the above regulations, YOU ARE HEREBY NOTIFIED that after consideration of your terms of appointment and of service details submitted by you it has been decided that you are a pensionable employee contributing to the Gwynedd Council Pension Fund and details of your reckonable service and other relevant information is given below.

If you are not satisfied with the information below please contact the Pensions Operations Manager to discuss the matter. If you are still not satisfied with the explanation you have a formal right of appeal under the two-stage appeals procedure.

The original appeal application must be submitted within six months of the date of the notification of the decision, and must set out the disagreement, including a statement as to its nature with sufficient details to show why you feel aggrieved.

The first stage is a formal review of the initial decision by the authority or body that took the decision. The application should therefore be addressed to the 'Specified Person' at your employer or former employer's address if you are appealing against an employer decision, or to the 'Specified Person', The Pension Section, Gwynedd Council, Council Offices, CAERNARFON, Gwynedd, LL55 1SH if you are appealing against a decision made by the Administering Authority.

If you are not satisfied with the decision of the 'Specified Person' under stage one you have the right of appeal under stage two of the procedure to the Administering Authority. Under the second stage Gwynedd Council, as administrators of the Gwynedd Pension Fund, have nominated a panel of officers to determine such cases with the relevant officer being chosen by the Head of Administration and Public Protection.

Appeals under the second stage should therefore be addressed to the Head of Administration and Public Protection, Gwynedd Council, Council Offices, CAERNARFON, Gwynedd, LL55 1SH.

OPAS (the Occupational Pensions Advisory Service) is available to assist members at any stage of the dispute procedure, their address is: OPAS, 11 Belgrave Road, London, SW1V 1RB.

